

(parhâd) Ac yn y fan yna mae gwir ystyr y Nadolig yn sicr. Mae modd i ni gyd fynd, fel ag yr ydym, at Iesu i gael ein golchi yn ffynnon ei glwyfau a chael noddfa ynddo ef ei Hun! Dewch, llawenhewch, diolchwch iddo, byth na thewch!

Galarwn gyda'r byd heddiw ym marwolaeth Nelson Mandela, gŵr a ysbrydolodd y byd. Diolchwn i Dduw am y newid sydd wedi dod i'r byd oherwydd i Dduw "dynnu i lawr y cedyrn a dyrchafu yr isel radd".

Llongyfarchiadau calonnog i Meurig Owen a chyfeillion Cefn Meiriadog ar gyhoeddi'r llyfr sy'n dathlu 150 o flynyddoedd ers dechrau'r achos yn y cylch.

*Aneurin*

## Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio am Eirian Davies (Cefn Meiriadog) yn Ysbyty Glan Clwyd a Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Yr ydym yn cyflwyno'r ddau, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.
- Llongyfarchiadau i Anwen Davies (Cefn Meiriadog) ac Arron Whitmore ar eu dyweddiad. Dymunwn fendith Duw arnynt.

## Ymateb i Argyfwng y Philipines

Diolch o galon i bawb sydd wedi ymateb i argyfwng y Philipines. Os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu, bydd Mair yn falch o dderbyn eich rhodd yn ystod y dydd heddiw, os gwelwch yn dda.

## I ddod

- **NOSON O GREFFTAU NADOLIG**, paned a mins pei yn Ffestri Llansannan nos Wener, Rhagfyr 20fed am 7.00 gyda'r elw yn mynd tuag at y Philipines. Croeso i bawb.
- **GWASANAETH CAROLAU** yng Nghapel Llanefydd nos Sul, Rhagfyr 22ain am 6.30.
- **PLYGAIN** dan arweiniad Aneurin yng Nghapel Llanefydd noswyl y Nadolig, nos Fawrth, Rhagfyr 24ain am 7.00.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **TAITH GERDDED I'R FRO** yn ardal Peniel bore Gwener, Rhagfyr 27ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00 yn Soar, Llanfair Talhaiarn.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 31ain–Chwefror 2il.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8<sup>fed</sup> Rhagfyr 2013

**Darlleniad y Dydd**

Mathew 2:1–6

(BCND tud.1 / BCN: tud.1)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Pa un ydi'ch hoff garol chi dybed? Does ganddon ni gymaint o ddewis! Mae un yn sicr yn ffeffryn gen i sef "Ar gyfer heddiw'r bore" (464). Ond wedyn mae "Rhyfedd, rhyfedd gan angylion" (446), a "Wele cawsom y Meseia!" (441) yn agos iawn. Yr hyn sy'n gwneud carol yn werthfawr ydi'r gwirionedd sydd ynddi a'r ffordd y mae'n dweud rhywbeth oesol wrthym am wyrth y Nadolig.

Rhyfeddu yw ein braint wrth y preseb. Rhyfeddu "at y peth hwn a wnaethpwyd". Duw sydd yma yn gweithredu o'n plaid a diolch am hynny! Felly, ar gyfer heddiw, ein heddiw ni hefyd, y mae Crist wedi ei eni! Ond cymwynas arall yr hen garolau ydi'r ddawn sydd ganddynt i'n hatgoffa mai Duw ei hun sy'n gweithredu yn ei amser Ef ei hun. Cafodd proffwydoliaeth Micha am eni tywysog ym Methlehem, Jwdea, ei gyhoeddi ganrifoedd ynghynt. Ond amser Duw oedd amser y doethion, y bugeiliaid a Herod. Dyma pryd y daeth "cyflawniad yr amser".

Mae'n siŵr mai'r cyfuniad rhyfeddol o fod yn Ysgrythurol, h.y. cyfeirio'n gywir at y proffwydoliaethau a'r paratodau, a disgrifiad o wefr y cyflawniad a llwyddiant dyfodiad Crist sy'n gyfrifol am naws ac agosatrwydd y carolau hyn.

Mae Eos lal yn wych yn hyn – cyfeiria at y pwrpas yn syth – "Ar gyfer heddiw'r bore..." Beth sydd mor oesol â hyn? I bob bore o'n heiddo ac o eiddo'r byd tra mae, mae geni Crist yn berthnasol. Trwy gyfeirio at enwau a theitlau niferus Crist yn yr Hen Destament y mae wedyn yn creu rhyfeddod. Mae'n rhyfeddol fod y Cadarn o Bosra, y Deddfwr ar Seina, yr lawn ar Galfaria yno'n faban bach. Yr Hwn sydd mor fawr yno'n fach, yn fachgen ac yn fab i Mair a Joseff, ond eto'n Fab Duw ac yn gwneud beth mae pob plentyn newydd-anedig yn ei wneud – yn sugno bron ei fam (Maria) yn faban bach!

Ond mae'n debyg mai cymwynas fwyaf y carolau hyn yw'r hyn sydd ynddynt am arwyddocâd dyfodiad Iesu i'r byd. Mae'r awduron yn taflu goleuni tragwyddoldeb ar yr ymgnawdoliad rhyfeddol ac yn dweud wrthym fod gennym gyfrifoldeb i ymateb. Gwelant yng Nghrist y dechrau (Alffa) a'r diwedd (Omega). Nid ar gyfer "heddiw" yn unig y ganwyd Crist, gwreiddyn Jesse, ond y mae yn awr yn "eistedd mewn awdurdod ar ei orsedd yn y nef" (457). Y mae'r hwn a welwyd gan y bugeiliaid yn Oen Duw, a'r hwn a addolwyd gan y doethion yn Frenin y Brenhinoedd ac yn deilwng o fawl y nef.

Gan fod y gwirioneddau hyn yn Feiblaidd, byrdwn Beiblaidd arall a geir yn y carolau gorau ydi'r siars i ni ymateb. "Am hyn, bechadur, brysia fel yr wyt, ymofyn am y noddfa fel yr wyt; i ti'r agorwyd ffynnon a ylch dy glwyfau duon fel eira gwyn yn Salmon fel yr wyt, gan hynny tyrd yn brydlon fel yr wyt." (464)

(parhâd ar y cefn)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun
- **Parti Nadolig CAP** (Grŵp genod bl. 7-11) yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth
- **Pwyllgor Blaenoriaid a Diaconiaid yr Ofalaeth** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- Iau
- **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener
- **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** am 3.00.
  - **C.I.C. Nadolig** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15

### Sul nesaf



### Llansannan

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth
- Cinio Nadolig a sgwrs gan Aneurin yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa Nadolig i'r teulu yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.